

**Nawfed cyfarfod**  
**Grŵp Ecosystem yr Ucheldir Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**  
**13 Hydref 2011**  
**Y Drenewydd**

**Yn bresennol:** Charles Morgan (Cadeirydd) (PONT), Dave Lamacroft (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), Steve Chambers (Llywodraeth Cymru), Jan Sherry (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Marieica Fraser (Prifysgol Aberystwyth), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Gareth Ellis (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/cynrychiolydd Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol), Bev Lewis (Ymddiriedolaethau Natur Cymru), Liz Lewis Reddy (Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn), Dr Peter Dennis, Peter Jones (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) a Julia Korn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

**Ymddiheuriadau:** Sian Whitehead (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Helen Buckingham (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Simon Thorp (Yr Ymddiriedolaeth Rug), John Farrar (Prifysgol Bangor)

**1. Cynllunio gwaith**

Trafodwyd newid ar gyfer y grŵp, sef defnyddio cynlluniau gwaith blynyddol yn lle cynlluniau gweithredu. Byddai'r rhain yn egluro beth y mae angen ei wneud (gan gynnwys gwaith ymchwil), gan bwy, ac er mwyn cyflawni pa gamau gweithredu sy'n flaenoriaeth. Gellid costio'r cynlluniau hyn a gellid nodi dulliau ariannu posibl.

**Cam gweithredu: Bydd JK yn archwilio'r syniad o ddatblygu cynllun gwaith gyda JS, a bydd yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.**

**2. Bylchau ymchwil o ran yr ucheldir**

Mae'r Grwpiau Ecosystem a'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r gymuned academiaidd i ymuno â nhw er mwyn helpu i adnabod blaenoriaethau ymchwil ar gyfer gwarchod ac adfer cynefinoedd/rhywogaethau, a mynd i'r afael â nhw.

Mae'r Grwpiau Ecosystem mewn sefyllfa dda i:

- adnabod y blaenoriaethau hyn, cytuno arnynt a rhannu gwybodaeth amdanynt â'r sawl sydd mewn sefyllfa i ddatblygu'r dystiolaeth
- defnyddio canfyddiadau ymchwil i lywio penderfyniadau a wneir yn y dyfodol, sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Gall y gymuned academiaidd:

- rannu gwybodaeth am waith ymchwil sydd ar y gweill/sydd wedi'i gwblhau a allai lenwi bylchau;
- cefnogi argymhellion a gyflwynir i Lywodraeth Cymru neu Defra (neu gyrff eraill) ynghylch blaenoriaethau;
- ymgorffori gwaith yn rhan o brosiectau a rhaglenni ymchwil a gaiff eu cynnal yn y dyfodol gan brifysgolion (rhai a gaiff eu hariannu a rhai na chânt eu hariannu).

### **Y blaenoriaethau a drafodwyd**

- **Ymchwil hydrolegol ar raddfa dalgyloch**  
Prosiect LIFE yr Undeb Ewropeaidd yn Llyn Efyrynwy – monitro rhwystrau, ac wrthi ar hyn o bryd yn monitro effeithiau'n is i lawr. Mike Walker/Mike Morris. Mae Chris Evans (PHD) yn edrych ar effeithiau lleol rhwystrau ar y Migneint, ond nid oes gwaith monitro ar raddfa fawr yn digwydd. Tynnwyd sylw at yr angen i gael data am y sefyllfa cyn i'r gwaith addasu gael ei wneud.
- **Ymchwil i gefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith yr Ucheldir**  
Cyfeiriodd Mariecia at waith a oedd yn cael ei wneud ar ddwysáu cynaliadwy ar ucheldiroedd.
- **Pori ar yr ucheldir**  
Mae angen gwybodaeth am ofynion o ran pori er mwyn cyflawni canlyniadau o safbwynt bioamrywiaeth. Mae'n bwysig deall y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng gwahanol effeithiau ar y fioamrywiaeth ac arwyddocâd newidiadau i wahanol gynefinoedd a rhywogaethau. Mae technegau newydd i reoli pori wrthi'n cael eu datblygu, e.e. y syniad o ffensys trydan dan y ddaear yn cael eu gweithredu gan goleri a gaiff eu gwisgo gan wartheg – Parciau Dinas Llundain (Coedwig Epping).
- **Casglu a rhannu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes**  
Caiff cofnodion Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol eu cadw yn y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (Brian Reynolds). Data arolygon a gaiff eu hailadrodd, e.e. yr arolygon ar yr Wyddfa – a fyddai modd cyflwyno'r technegau mewn manau eraill, e.e. Pumlumon? Cynnwys Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru yn y gwaith.

Yn ystod cyfarfod Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystem ar 6 Medi, cytunwyd y byddai gweithdy'n cael ei gynnal ar gyfer pob academydd sy'n ymuno â'r Grwpiau Ecosystem neu'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau, er mwyn darparu trosolwg o Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a threfnu i ddyrannu gweithgareddau ymchwil addas i fyfyrwyr MSc. Caiff gweithgareddau ymchwil nad ydynt yn addas ar gyfer y dull hwn o weithredu eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru er mwyn eu cynnwys o bosibl mewn rhaglenni ymchwil priodol yng Nghymru a'r DU.

**Cam gweithredu:** Bydd CM yn cysylltu ag Andrew Pullen (Prifysgol Bangor – Cadwraeth Seiliedig ar Dystiolaeth) a Shaun Russell (Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru) i archwilio cyfleoedd i gael gwybod mwy am waith ymchwil blaenorol/cyfredol, gyda'r bwriad o weld a yw'n berthnasol heddiw, ac os felly, sut y gellir ei ddefnyddio wrth reoli'r ucheldiroedd yn ymarferol.

**Cam gweithredu:** Bydd angen i bawb ystyried beth yw'r prif faterion y mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach yn eu cylch, ac anfon eu sylwadau at JK erbyn 9 Rhagfyr 2011.

**Cam gweithredu:** Bydd PJ, PD ac MF yn darganfod yr hyn a allant am weithgarwch ymchwil yn y DU ar gyfer yr ucheldir ac yn adrodd yn ôl i JK cyn y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu:** Bydd JK yn cynnwys trafodaeth ar sail y 3 cham gweithredu uchod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu:** Bydd pawb yn y cyfarfod nesaf yn blaenoriaethu anghenion o ran ymchwil a bydd CM yn adrodd yn ôl i DEFRA/Llywodraeth Cymru neu eraill fel y bo'n briodol.

**Cam gweithredu:** Bydd JK yn cynnwys blaenoriaethau ymchwil yn y cynllun gwaith ar gyfer yr ucheldir, ac yn parhau i'w hadolygu'n rheolaidd gydag aelodau'r grŵp (yn flynyddol?).

### 3. Gweithdai rhanbarthol

Bydd De Cymru yn cynnal gweithdy ar 16 Tachwedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Gareth Ellis yn trefnu'r gweithdy.

**Bydd yr agenda yn cynnwys y canlynol:** Cyflwyniadau ynghylch mapio blaenoriaethau / cynllunio gwaith (JS), prosiect llosgi / gyrru oddi ar y ffordd PONT (CM i sicrhau hynny), mawn yr ucheldir (PJ).

**Gweithdai** ar brosiect Elenydd (Reg Thorpe, DL i sicrhau hynny), ymdrin â phrosiectau datblygu (??), materion sy'n ymwneud â mawn (PJ).

**Cam gweithredu:** Bydd JK yn cynllunio rhaglen ac yn ei hanfon at GE.

**Cam gweithredu:** Bydd GE yn anfon gwahoddiadau.

**Cam gweithredu:** Bydd GE, PJ, Reg Thorpe, JS a CM yn cynnal y gweithdai ac yn cyfrannu iddynt.

**Cam gweithredu:** Bydd JK a PJ yn trefnu gweithdy ar gyfer y gogledd cyn y Pasg.

### 4. Asesu grantiau

Defnyddiwyd gweddill y cyfarfod i asesu'r ceisiadau i Gronfa Cydnerthedd ac Amrywiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru. Cafodd y ceisiadau canlynol eu hasesu:

Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn – Pumlumon	83	(wedi'i ariannu)
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Y Migneint	77	(wedi'i ariannu)
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Abergwesyn	72.5	
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Waen Fach		72
Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Elenydd		66.5

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – tanau gwyllt	63.5
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Hatterall Ridge	63.5
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – tirwedd	56
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – The Woollen Line (PROSIECT BACH)	51.5
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – torri lleiniau atal tân wrth reoli rhedyn/grug (PROSIECT BACH)	41
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – llwybr troed	1.5

Gofynnwyd i'r Cadeirydd argymhell dau brosiect yn ogystal ag un prosiect rhad. Cytunodd Grŵp yr Ucheldir mai prosiectau rhad oedd rhai dan £20,000. Cafodd dau brosiect eu hasesu at y diben hwn – prosiect gwlan Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a phrosiect Mynydd Conwy – a phrosiect 'The Woollen Line' Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gyflwynwyd ac a gafodd gyllid.

Cafodd prosiect calchfaen Llanymynech ei gyflwyno i'r Grŵp Glaswelltir a Gweundir yr Iseldir er mwyn ei asesu, a llwyddodd i gael cyllid.

Cytunwyd ar egwyddorion sylfaenol. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gallu pleidleisio ar sail eu dealltwriaeth o'r prosiectau ar ôl gweld y ceisiadau ysgrifenedig (ymarfer cyfranogi).

Siaradodd un cynrychiolydd o'r grŵp am bob un o'r prosiectau am funud er mwyn egluro pam y dylent gael y cyllid.

Rhoddodd y grŵp sgôr i bob prosiect o safbwynt y meini prawf hanfodol. Nid oedd modd i aelod yr oedd prosiect o fudd iddo ymwneud â'r broses o sgorio'r prosiect hwnnw. Cafodd y sgorau eu cofnodi.

Rhoddodd CM sgôr i'r prosiectau o safbwynt y meini prawf dymunol gartref gan fod y cyfarfod wedi rhedeg allan o amser. Roedd hon yn broses gynhwysol, fodd bynnag, a chafwyd rhywfaint o sgorio goddrychol gan ei bod yn aml yn anodd sgorio ar sail y meini prawf. Yn wreiddiol roedd y ceisiadau wedi dod i law cyn cytuno ar y meini prawf, ac roedd rhai ohonynt wedi'u mireinio ac eraill heb eu mireinio. Aed i'r afael â hynny'n rhannol drwy arbenigedd cyffredin aelodau'r grŵp.

## 5. Dyddiad y cyfarfod nesaf

**12 Ionawr – lleoliad i'w gadarnhau**

**5 Gorffennaf – lleoliad i'w gadarnhau – dylai gynnwys ymweliad maes**

## **Negeseuon i'w hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru**

1. **Mae pecyn cais yn hanfodol ar gyfer gwaith cyllido yn y dyfodol.** Dylai'r pecyn gynnwys meini prawf, rheolau cyffredinol, cwestiynau cyffredin a manylion cyswllt er mwyn trafod cynigion, yn ogystal â ffurflen gais.
2. **Mae angen sefydlu rheolau cyffredinol, e.e. mae angen nodi'n glir beth y bydd y grant yn ei gefnogi, e.e. gweithredu uniongyrchol, ymchwil, gwaith asesu, ymwybyddiaeth ac ati.** Roedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys llawer o elfennau ac nid oeddent yn siŵr pa elfennau y byddai modd eu hariannu â'r arian eleni. Yn ogystal, nid oeddem yn siŵr a oedd modd argymhell prosiect, ar ffurf prosiect llai o faint yn unig? Mae'n bwysig bod y rheolau cyffredinol ar gyfer yr ymgeisydd a'r sawl sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yn cael eu nodi'n glir.
3. **Mae angen i'r meini prawf, a'r daflen sgorio hefyd felly, fod yn fwy CRAFF.** Un enghraifft yw'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n flaenoriaeth. Gellid asesu'r rhain gyda'i gilydd (h.y. Atodlen I/II ac Adran 42) ond eu rhannu ar sail meini prawf sy'n ymwneud ag ansawdd a nifer efallai.
4. **Eleni gofynnwyd i bob grŵp ddewis dau brosiect, ond ceir ansicrwydd ynghylch a yw hynny'n golygu bod y prosiectau gorau'n cyrraedd y panel.** Roedd gan rai grwpiau, e.e. Grŵp yr Ucheldir, lawer o brosiectau (o ansawdd uchel iawn), ond dim ond dau neu dri phrosiect (neu ddim un yn achos rhai grwpiau) yr oedd grwpiau eraill wedi gorfod eu hasesu. Pe bai mwy o amser wedi bod ar gael, hwyrach y byddai pecynnau cais wedi gallu cael eu dosbarthu drwy'r Grwpiau Ecosystem ac ati, ac y byddent yn gallu annog ymgeiswyr ar gyfer eu Grŵp nhw ac ati. Fodd bynnag, mae'r angen yn parhau am ddull o gydbwysu anghenion y grwpiau sy'n cael llawer o ymgeiswyr a'r grwpiau nad ydynt yn cael llawer o ymgeiswyr.